



Sacha Miller

*“Cawsom ddiwrnod
i'r brenin! Gwnaeth
lawer o bobl sylw
am y lleoliad a
phawb yn
ganmoliaethus iawn.
Fe wnaethoch chi'r
diwrnod hyn yn oed
yn fwy arbennig.”
Rachael a Lewis*



*“Cawsom barti
priodas gwych yn
y Coleg ac ni allwn
ddiolch digon i'r
staff am eu help,
eu hamynedd,
brwdfrydedd a
chreadigrwydd i
wneud y noson yn
un fythgofiadwy.”
Beth a Rhys*



Simon Gough Photography



Sacha Miller



Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i'r ddau ohonoch ar eich priodas neu bartneriaeth sifil a fydd yn digwydd yn fuan. Rydych wedi cymryd y cam mawr cyntaf ar eich taith i dreulio gweddill eich bywyd gyda'r un yr ydych yn garu ac rydym yn falch iawn drosoch!

Mae ein lleoliadau priodasau unigryw ar gael yn gyfan gwbl yn ystod yr haf, cyn y Nadolig ac wedi'r Flwyddyn Newydd, ac yn ystod mis Ebrill i gynnal eich priodas yn unol â'ch dymuniad, o'r traddodiadol i'r hynod, un unigryw o greadigol neu ar thema benodol. Mae gennym enw da iawn am ein gwasanaeth o safon uchel a bydd ein Rheolwr Priodasau penodol yn eich cynorthwyo wrth i chi gynllunio. Ochr yn ochr â'n gweithwyr proffesiynol, a fydd yn gallu dod â'ch syniadau'n fyw drwy addurniadau unigryw, goleuo rhagorol, sain gwych a hyd yn oed perfformiad byw, gall ein cogydd mewnlol eich cynorthwyo i ddewis eich bwydlen ac ychwanegu cyffyrddiadau blasus i'ch diwrnod arbennig.



Serene Weddings



Lens Monkey



Sacha Miller



Hello Pretty Photography

Ein lleoliad cyntaf yw adeilad hanesyddol stablau Castell Caerdydd, Canolfan Anthony Hopkins. Mae'n sefyll ar un pen rhodfa goed hardd gyda Chastell Caerdydd ar y pen arall, a gallwch chi a'ch gwesteion gyrraedd un o barciau mwyaf godidog y DU mewn car, ceffyl a chert, ar dandem neu hyd yn oed mewn tacsî dŵr! Gellir cynnal seremoni gartrefol mewn un o ddwy ystafell hardd a llawn cymeriad ar gyfer hyd at 70 o westeion ac mae'r cwrt awyr agored yn wych ar gyfer eich derbyniad diodydd ar ddiwrnod braf gyda'r parc yn gefnlen fendigedig ar gyfer eich lluniau!

Ar gyfer seremonïau priodas mwy, mae ein cyfres o leoliadau a chwenychir yn fawr yn cynnwys ein neuadd gyngerdd a theatr o'r radd flaenaf. Bydd eu dyluniad cyfoes trawiadol yn sicrhau eich rhoi yng nghanol y llwyfan. Ynghyd â'n hatriwm gwydr trawiadol, teras awyr agored, bar a llawr dawnsio sy'n edrych dros y parc, gall hyd at 200 o westeion fwynhau brecwast priodas gwirioneddol wych a derbyniad hwyr i ddilyn ar gyfer hyd at 300 o westeion gan roi profiad a fydd yn aros yng nghof pawb am byth!

"Wedi pob cyfarfod roeddem yn teimlo'n dawel ein meddwl fod pethau'n mynd yn esmwyth ac roedd yn brofiad cyffrous i weld y diwrnod yn dod at ei gilydd."
Jess a Jon



Sacha Miller



JH Photography



“Diolch o waelod calon i chi a’ch holl staff am eich cyfraniad i wneud ‘Diwrnod Arbennig’ Chris ac Amelia yn un bythgofiadwy! Mae ein ffrindiau a’n teuluoedd yn dal i sôn am y lleoliad rhyfeddol, y gwasanaeth di-fai a’r bwyd o safon Michelin.”
Les a Sue Mumford a Jerry a Mo Clark

A fydd gennym ddefnydd ecsgliwsif?
 Bydd, yn sicr! Rydym hefyd yn cyflogi staff drws ar eich rhan ar gyfer y nos, sydd bob amser yn gwrtais iawn ac a fydd yn croesawu eich gwsteion â gwên.

Pwy fydd yn darparu’r arlwyf?
 Bydd ein Rheolwr Arlwyf mewnol yn trafod eich bwydlen ddelfrydol a gall awgrymu syniadau i’ch ysbrydoli ar gyfer y dydd a’r hwyr. Byddwn yn darparu’r holl fyrddau, cadeiriau, cytleri, llestri a llieiniau.

A oes bar yn y Coleg?
 Oes, mae gennym far wedi’i stocio’n llawn, sydd â thrwydded i weini tan 1:30am.

Allwn ni ddarparu ein diodydd ein hunain?
 Gallwch, codir tâl gweini dim ond am y diodydd a yfir ac mae’n cynnwys gwydrau a staff gweini.

Allwch chi ddarparu cerddorion byw?
 Gallwn, ystod eang ohonynt yn amrywio o bedwarawdau i fandiau jazz. Mae gennym gerddorion dawnus dros ben ac maent i gyd ar gael drwy ein gwasanaeth ‘Llogi Perfformiwr’.

A fyddwch chi’n ein helpu gyda’r trefniadau technegol?
 Gall ein tîm technegol profiadol greu effeithiau golau a sain penodol ar gyfer eich seremoni, derbyniad a pharti.

A oes lle i barcio?
 Mae gennym ofodau ar gyfer deiliaid bathodyn glas ac mae meysydd parcio mawr i’w cael nesaf at y Coleg (am ddim wedi 8pm). Rydym wedi’n lleoli yng nghanol y ddinas felly mae’n hawdd cyrraedd eich llety mewn tacsï neu ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Beth yw pris y lleoliadau gwych hyn?
 Bydd ein Rheolwr Priodasau penodol a phrofiadol yn eich cynorthwyo i

gynllunio eich priodas ddelfrydol o fewn eich cyllideb. Codir tâl fesul awr am y lleoliad ac mae gennym restr prisiau ychwanegol sy’n cynnwys llawer o bosibiliadau creadigol fel y gallwch wneud eich diwrnod arbennig mor unigryw â chi.

Cysylltu:
 Rheolwr Priodas
 02920 342018
 weddings@rwcmand.ac.uk

Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru
 Maes y Castell
 Parc Cathays
 Caerdydd CF10 3ER

Gallwch weld un o leoliadau mwyaf poblogaidd Caerdydd yn:

www.rwcmand.ac.uk/who-we-are/hire-us/weddings





*“Diolch yn fawr iawn am eich holl gymorth yn ystod y cyfnod cyn y briodas! Gwnaethoch bopeth mor hawdd ac nid oedd unrhyw beth yn ormod o drafferth! Gwnaed argraff ar fy mam gan y tylwyth teg a fu’n clirio y bore canlynol! Mae cymaint wedi canmol y lleoliad a’r bwyd.”
Elinor a Mike*



Serene Weddings